BETH SY'N DANGOS MAI GAIR DUW YW'R BEIBL?

Nodyn i'r siaradwr:
Dylai'r anerchiad hwn gryfhau ffydd ein brodyr a'u hannog nhw ynghyd â'r rhai sydd newydd ddechrau dod i'r cyfarfodydd. Dylid magu hyder yng Ngair ysbrydoledig Duw, ac egluro y dylen ni adael i'r Beibl ein harwain drwy fywyd yn ystod y dyddiadau olaf

MAE GWIR GRISTNOGION YN AMDDIFFYN Y BEIBL (5 mun.)

Heddiw, mae grwpiau a phobl bwerus yn gweithio i danseilio'r Beibl (*gm*-E 31-35)

Mae beirniaid, esblygwyr, gweinidogion modern, ac athronwyr yn ymosod ar ddilysrwydd y Beibl drwy greu theorïau i ddisodli ffydd ynddo, ac maen nhw hyd yn oed yn diystyru'r angen i gredu yn Nuw

Mae ymddygiad drwg y bobl sy'n honni eu bod yn Gristnogion wedi dod â gwarth ar y Beibl ac wedi dylanwadu ar farn pobl o fewn y byd Cristnogol a thu allan iddo (Rhu 2:21-24; *w05*-E 9/1 30-31)

Mae Tystion Jehofa yn cyhoeddi bod y Beibl wedi ei ysbrydoli gan Dduw a'i fod yn hollol ddibynadwy ac yn hollol gywir

Mae eu dysgeidiaethau a'u cyfundrefn wedi eu seilio'n llwyr ar y Beibl

Maen nhw'n cydnabod bod y Beibl yn llawer mwy na llenyddiaeth ardderchog

Iddyn nhw, mae'r Beibl yn unigryw, y llyfr mwyaf defnyddiol a manteisiol

Roedd Iesu Grist yn cadarnhau bod Gair Duw yn wir ac yn ei ddefnyddio i drechu temtasiwn (Mth 4:4; In 17:17)

Fel ei ddilynwyr, mae angen inni ddefnyddio'r adnodau yn yr un ffordd a chael yr un agwedd tuag atyn nhw

Rydyn ni'n gwybod o brofiad mai'r Beibl yw'r unig ffynhonnell ddibynadwy sy'n ein helpu i ddod i adnabod Duw a darganfod yr hyn sy'n ei blesio (Sal 119:105)

Mae'n rhoi sylfaen gadarn i'n ffydd a'n cred (1Pe 3:15)

Mae gennyn ni dystiolaeth bendant sy'n profi mai'r Beibl yw gwir Air ysbrydoledig Duw

TYSTIOLAETH GLIR BOD Y BEIBL YN DOD ODDI WRTH DDUW (20 mun.)

Mae'r cynnwys, agwedd yr ysgrifenwyr, a ffactorau eraill yn profi bod y Beibl wedi dod o Dduw

Mae gonestrwydd yr ysgrifenwyr yn dystiolaeth gref bod y Beibl yn ddibynadwy (*w05*-E 5/15 18; *w05*-E 7/15 6; *si*-E 341; *it*-1-E 312)

Mae gwirionedd y Beibl yn cael ei gadarnhau drwy dystiolaeth yr ysgrifenwyr a Christnogion cynnar a oedd yn llygad-dystion, gan wybod y gallan nhw gael eu dedfrydu i farwolaeth ar sail eu tystiolaeth (*si*-E 342; *it*-1-E 312)

Mae cytundeb mewnol y Beibl yn dystiolaeth ychwanegol sy'n dangos ei fod yn gywir ac wedi ei ysbrydoli

Er i 40 o bobl ysgrifennu'r Beibl dros gyfnod o 1,600 o flynyddoedd, mae popeth ynddo yn gytûn (*si*-E 341)

Un thema sy'n mynd trwyddo, sef cyfiawnhau sofraniaeth Jehofa a sancteiddio ei enw drwy ei Deyrnas o dan Grist (*si*-E 342; *it*-1-E 310-311)

Mae'r Beibl yn cynnwys egwyddorion cyfiawn a safonau moesol sydd eto yn cadarnhau ei fod wedi ei ysbrydoli gan Dduw (*w05*-E 7/15 5; *si*-E 340; *it*-1-E 312)

Mae hanesion y Beibl yn fanwl gywir, gan gynnwys y wybodaeth ddaearyddol, ddaearegol, a chronolegol (*si*-E 339-341)

Er nad yw'r Beibl yn llyfr gwyddonol, wrth drafod rhywbeth gwyddonol mae bob amser yn gywir (*w05*-E 7/15 5; *si*-E 340; *it*-1-E 312)

Mae cywirdeb y llyfrau Hebraeg a Groeg sy'n rhan o ganon y Beibl wedi eu cadarnhau (*g01*-E 3/8 8-11; *si*-E 338-339; *it*-1-E 153-154, 311-312)

Cyflawniad proffwydoliaeth yw'r dystiolaeth gryfaf bod y Beibl wedi ei ysbrydoli

Mae'r proffwydoliaethau am Iesu a'u cyflawniad yn sefyll allan (*si*-E 343-344) [Trafodwch rai o'r proffwydoliaethau a'r cyflawniadau, er enghraifft proffwydoliaethau am ei enedigaeth, ei weinidogaeth, ei farwolaeth, a'i atgyfodiad]

Mae proffwydoliaethau am genhedloedd gynt a phethau sy'n digwydd yn ein hoes ni yn rhoi hyder inni mai Gair Duw yw'r Beibl (*si*-E 344-346) [Defnyddiwch yr enghreifftiau canlynol ac enghreifftiau eraill fel y mae amser yn caniatáu]

Cwymp Babilon a'i dinistr (Esei 13:17-22; 45:1, 2; Da 5:22-31; *gm*-E 122-125)

Ailadeiladu Jerwsalem a'r deml gan yr alltudion Iddewig a ddychwelodd (2Cr 36:22, 23; Esr 1:1-4; Esei 44: 26-28)

Olyniaeth grymoedd y byd (Da 8:1-8, 20-22; *gm*-E 125-128)

Amserau enbyd cyn diwedd y system hon (Mth 24:7-14; 2Ti 3:1-5; *gm*-E 136-148)

CYMRYD SYLW O AIR YSBRYDOLEDIG DUW (5 mun.)

Mae cyngor a dysgeidiaethau'r Beibl er ein lles ni ac yn ein helpu (2Ti 3:16, 17)

Dod i adnabod Awdur y Beibl drwy dderbyn gwybodaeth amdano ef a'i Fab—gwybodaeth sy'n achub bywydau (In 17:3)

Rhowch ar waith cyngor y Beibl a fydd yn eich gwneud chi'n ddoeth (Sal 19:7b; Dia 2:6; 2Ti 3:15)

Mae proffwydoliaethau'r Beibl yn dangos bod amser y byd hwn yn dod i ben, felly mae'r amser i ymateb yn prysur redeg allan (1Co 7:29; *w04*-E 2/1 21-22; *bh* 86-95; *wt*-E 175-183)

Rydyn ni'n eich gwahodd chi i astudio'r Beibl gyda ni ac i 'ganfod beth yw ewyllys Duw, a beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef' (Rhu 12:2)

Drwy roi ffydd yn y newyddion da, byddwch chi'n elwa nawr ac yn y dyfodol (Esei 48:17; Heb 10:38, 39)

Mae rhoi ar waith y cyngor sydd yn y Beibl yn sicrhau y byddwch yn derbyn bendithion yn y byd newydd (2Pe 3:13)

(Does dim rhaid darllen pob testun)

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania